Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English |
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Ystadegau Medr

# Deilliannau Graddedigion: darparwyr addysg uwch, 2023/24

**Cyfeirnod:** Sta/Medr/11/2026
**Dyddiad:** 23 Mehefin 2026
**Dynodiad:** Ystadegau Swyddogol
**E-bost:** YstadegauAU@medr.cymru

**Crynodeb:** Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys canlyniadau'r arolwg Deilliannau Graddedigion ar gyfer ymatebwyr a astudiodd gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru, ac ymatebwyr o Gymru a astudiodd gyda darparwyr addysg uwch ledled y DU.

**Thema:** Addysg uwch

**Ffynhonnell:** Arolwg Deilliannau Graddedigion gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Cynnwys

Prif bwyntiau .... 2
Cyflwyniad a'r cefndir .... 4
Pa weithgarwch yr oedd ymatebwyr o ddarparwyr Cymru yn ei gyflawni 15 mis ar ôl graddio? .... 5
Pa weithgareddau oedd ymatebwyr a oedd yn hanu o Gymru yn ei wneud 15 mis ar ôl graddio? .... 12
Beth oedd lleoliad ymatebwyr a oedd yn gyflogedig 15 mis ar ôl graddio? .... 15
Sut oedd yr ymatebwyr yn teimlo ynghylch eu gweithgareddau 15 mis ar ôl graddio? .... 17
Pa gyflogau oedd graddedigion a gafodd gymwysterau gradd gyntaf ac a aeth i gyflogaeth amser llawn yn eu hennill 15 mis ar ôl graddio? .... 21
Diffiniadau a Rhestr Termau .... 25
Ffynhonnell y data .... 26
Talgrynnu .... 26
Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd .... 27
Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg .... 28
Ystadegau cysylltiedig .... 29
Gwybodaeth gyswllt .... 29

## Prif bwyntiau

### Beth oedd graddedigion yn ei wneud?



O blith y graddedigion o ddarparwyr addysg uwch (AU) Cymru a ymatebodd i arolwg Deilliannau Graddedigion 2023/24:

- Roedd 67% mewn cyflogaeth amser llawn, ran-amser neu ar batrwm cyflogaeth anhysbys. Roedd 11% yn ymgymryd â chyfuniad o waith ac astudiaeth bellach.
- Roedd 6% naill ai'n astudio ymhellach yn rhan-amser, yn amser llawn, neu ar batrwm anhysbys.
- Roedd 1% yn gwneud gwaith gwirfoddol neu ddi-dâl, roedd 6% yn ddi-waith ac roedd 7% yn gwneud rhyw weithgarwch arall fel teithio, gofalu am rywun, neu wedi ymddeol.

O blith y graddedigion o Gymru a oedd yn astudio yn unrhyw ran o'r DU, ac a ymatebodd i arolwg Deilliannau Graddedigion 2023/24:


- Roedd 69% mewn cyflogaeth amser llawn, ran-amser neu ar batrwm cyflogaeth anhysbys. Roedd 12% yn ymgymryd â chyfuniad o waith ac astudiaeth bellach.
- Roedd 5% naill ai'n astudio ymhellach yn rhan-amser, yn amser llawn, neu ar batrwm anhysbys.
- Roedd 1% yn gwneud gwaith gwirfoddol neu ddi-dâl, roedd 5% yn ddi-waith ac roedd 7% yn gwneud rhyw weithgarwch arall fel teithio, gofalu am rywun, neu wedi ymddeol.
- Roedd ymatebwyr israddedig amser llawn o'r cwintel mwyaf amddifadus ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth ac yn fwy tebygol o fod yn ymgymryd â gweithgarwch arall fel teithio, gofalu am rywun neu wedi ymddeol, na'r rhai o'r cwintel lleiaf amddifadus ym MALIC.
- Roedd gwahaniaeth o 2 bwynt canran rhwng cyfrannau'r ymatebwyr israddedig amser llawn oedd yn ddi-waith o'r cwintelau mwyaf a lleiaf amddifadus. Roedd 8% o raddedigion o'r cwintel mwyaf amddifadus yn ddi-waith, o'i gymharu â 6% o'r cwintel lleiaf amddifadus.

## Ymhle yr oedd graddedigion yn gweithio?



O blith y graddedigion a ymatebodd i arolwg Deilliannau Graddedigion 2023/24 ac a ddywedodd mai gwaith oedd eu gweithgarwch pwysicaf:

- Gwnaeth 45% o'r rhai a ddeuai o Gymru ond a astudiodd gyda darparydd AU yn rhannau eraill o'r DU ddychwelyd i weithio yng Nghymru.
- Arhosodd 88% o'r rhai o Gymru ac a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru i weithio yng Nghymru.
- Arhosodd 18% o'r rhai a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru ond a oedd yn dod o rannau eraill o'r DU yng Nghymru i weithio.




## Sut oedd graddedigion yn teimlo ynghylch eu gweithgarwch presennol?



O blith y graddedigion o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru a ymatebodd i arolwg Deilliannau Graddedigion 2023/24:

- Roedd 84% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod eu gweithgarwch presennol yn ystyrlon.
- Roedd 68% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod eu gweithgarwch presennol yn defnyddio'r sgiliau yr oeddent wedi'u dysgu yn ystod eu hastudiaethau.
- Roedd 73% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod eu gweithgarwch presennol yn cyd-fynd â'u cynlluniau i'r dyfodol.




## Cyflwyniad a'r cefndir

Arolwg a gwblheir gan raddedigion tua 15 mis ar ôl iddynt gwblhau eu hastudiaethau yw'r arolwg Deilliannau Graddedigion. Cyflwynir yr arolwg gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).


Mae data Deilliannau Graddedigion 2023/24 yn cynnwys myfyrwyr a gwblhaodd raglenni astudio cymwys rhwng 1 Awst 2023 a 31 Gorffennaf 2024 ac a gwblhaodd yr arolwg, neu o leiaf yr ymateb gofynnol lleiaf i gael eu cynnwys yn y data. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ymatebion gan raddedigion a astudiodd naill ai gyda darparydd addysg uwch yng Nghymru neu raddedigion o Gymru a astudiodd gyda darparwyr addysg uwch yn unrhyw ran o'r DU.

Lle defnyddir y term 'graddedigion' yn y cyhoeddiad hwn, mae'n cyfeirio at ymatebwyr arolwg Deilliannau Graddedigion 2023/24.

## Pa weithgarwch yr oedd ymatebwyr o ddarparwyr Cymru yn ei gyflawni 15 mis ar ôl graddio?

**Parhaodd cyflogaeth fel y gweithgarwch mwyaf cyffredin ymhlith graddedigion o ddarparwyr AU Cymru, gydag astudiaethau pellach yn parhau i ostwng o ran poblogrwydd.**

Siart 1: Gweithgarwch ymatebwyr a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru, 2019/20 i 2023/24.




Data yn Ffigur 4 ar wefan HESA

Gostyngodd cyfran gyffredinol y graddedigion o ddarparwyr AU Cymru a oedd mewn cyflogaeth (naill ai'n llawnamser, yn rhan-amser neu ar batrwm gwaith anhysbys) 15 mis ar ôl graddio o 68% yn arolwg 2022/23 i 67% yn 2023/24. Mae'r gyfran hon ar ganol y duedd dros y bum mlynedd diwethaf, lle'r oedd y ganran isaf o raddedigion mewn cyflogaeth yn 65% (2019/20) a'r ganran uchaf yn 70% (2021/22).

Fodd bynnag, gwelwyd gwahaniaethau wrth edrych ar y math o gyflogaeth: Rhwng 2022/23 a 2023/24, cynyddodd canran y graddedigion mewn gwaith rhan-amser o 12% i 13%, tra gostyngodd y ganran mewn gwaith llawnamser o 56% i 54%.

Mae cyfran y graddedigion sy'n cyflawni cyfuniad o gyflogaeth ac astudiaeth bellach wedi aros yn gyson ar 11% ers 2020/21.

Ar y llaw arall, dewisodd 6% o raddedigion 2023/24 astudiaeth bellach yn unig. Mae cyfran y graddedigion sy'n astudio ymhellach wedi bod yn lleihau'n raddol ers 2019/20, pan oedd ar y lefel uchaf a welwyd dros y pum mlynedd diwethaf (11%).

Mae cyfran y graddedigion sy'n cyflawni gweithgarwch amgen, gan gynnwys teithio, gofalu neu ymddeol, wedi cynyddu'n raddol ers 2019/20, gan godi o 5% i 7%.

Mae graddedigion sy'n gwneud gwaith gwirfoddol neu ddi-dâl wedi parhau i fod yn gyfran fach (1%).

Roedd cyfran y graddedigion a oedd yn ddi-waith yn 6% yn 2023/24, a oedd yr un peth â'r flwyddyn flaenorol.

**Roedd cyfran ychydig yn fwy o raddedigion o ddarparwyr AU Cymru wedi mynd i astudio ymhellach, o gymharu â gwledydd eraill y DU.**

Tabl 1: Gweithgarwch ymatebwyr yn ôl gwlad y darparydd, 2023/24.

| | Gwlad y darparydd | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgarwch** | **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** |
| Cyflogaeth amser llawn | 54% | 57% | 60% | 57% |
| Cyflogaeth ran-amser | 13% | 13% | 11% | 12% |
| Patrwm cyflogaeth anhysbys | 1% | 1% | 1% | 1% |
| Gwaith gwirfoddol neu ddi-dâl | 1% | 1% | 1% | 1% |
| Cyflogaeth ac astudiaeth bellach | 11% | 10% | 11% | 10% |
| Astudiaethau bellach amser llawn | 6% | 5% | 4% | 6% |
| Astudiaethau bellach rhan-amser | 1% | 1% | 0% | 0% |
| Patrwm astudiaeth bellach anhysbys | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Arall gan gynnwys teithio, gofalu am rywun neu wedi ymddeol | 7% | 7% | 6% | 6% |
| Di-waith | 6% | 7% | 4% | 6% |

Data yn Ffigur 4 ar wefan HESA

Yn 2023/24, roedd cyfran y graddedigion o ddarparwyr AU Cymru a ddechreuodd gyflogaeth amser llawn (54%) yn is o gymharu â'r rhai a astudiodd mewn darparwyr yn Lloegr (57%), Gogledd Iwerddon (60%) a'r Alban (57%).


Yn narparwyr AU Cymru a Lloegr roedd cyfrannau ychydig yn fwy o'r graddedigion yn dechrau cyflogaeth ran-amser (13% yn y naill a'r llall), o gymharu â darparwyr Gogledd Iwerddon (11%) a'r Alban (12%).

Yn narparwyr Cymru roedd cyfran ychydig yn fwy o raddedigion yn astudio ymhellach (6% yn amser llawn ac 1% yn rhan-amser) o gymharu â gweddill y DU.

Roedd cyfran y graddedigion o ddarparwyr AU Cymru a oedd yn ddi-waith (6%) ar yr un lefel â gwledydd eraill y DU, a chanddynt gyfrannau diweithdra rhwng 4% a 7%.

**Roedd dynion a menywod a raddiodd o ddarparwyr yng Nghymru yn canlyn gweithgareddau tebyg ar y cyfan.**

Siart 2: Gweithgareddau ymatebwyr a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru yn ôl rhyw, 2023/24.




Data yn Ffigur 5 ar wefan HESA

Roedd cyfrannau'r dynion a'r menywod a oedd mewn cyflogaeth 15 mis ar ôl graddio yn debyg, gyda 67% o fenywod a 68% o ddynion a oedd wedi graddio mewn gwaith.

Roedd 11% o raddedigion benywaidd a gwrywaidd, y naill a'r llall, yn gwneud cyfuniad o waith ac astudio pellach, tra bo 7% o raddedigion benywaidd a 6% o raddedigion gwrywaidd yn astudio ymhellach yn unig.


Roedd 1% o raddedigion gwrywaidd a benywaidd, y naill a'r llall, yn gwneud gwaith gwirfoddol neu ddi-dâl. Roedd cyfrannau'r graddedigion di-waith hefyd yn debyg ar gyfer y naill grŵp a'r llall (6% i fenywod a 7% i ddynion).

Roedd anghydraddoldeb rhwng graddedigion benywaidd a gwrywaidd a oedd yn ymgymryd â gweithgareddau eraill fel teithio, gofalu neu ymddeol: Roedd 8% o raddedigion benywaidd yn y categori hwn, o gymharu â 6% o raddedigion gwrywaidd.

Nid yw Siart 2 yn cynnwys ffigurau ar gyfer y rhai a nododd eu rhyw fel 'Anhysbys'. O'r rhai a ymatebodd i'r arolwg, nododd 140 o fyfyrwyr eu rhyw fel 'Anhysbys', a oedd yn llai nag 1% o'r rhai â deilliannau hysbys.

**Roedd cyfran y graddedigion a oedd yn astudio ymhellach yn lleihau gydag oedran.**

Siart 3: Gweithgarwch yr ymatebwyr a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru yn ôl grŵp oedran, 2023/24.




[Data yn Ffigur 5 ar wefan HESA](#)

Cyflogaeth oedd y gweithgarwch mwyaf cyffredin i bob oedran 15 mis ar ôl graddio. Fodd bynnag, roedd graddedigion oedd yn 30 oed a throsodd (69%) neu'n 25 i 29 oed (71%) yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth, o gymharu â graddedigion iau 20 oed ac iau (55%) a graddedigion rhwng 21 a 24 oed (65%).


Roedd cyfran y graddedigion a wnaeth gyfuniad o gyflogaeth ac astudiaeth bellach yn debyg ar draws grwpiau oedran, gyda'r gyfran fwyaf o raddedigion yn y categori 20 oed ac iau (12%).

Ar y llaw arall, roedd cyfran y graddedigion a oedd yn astudio ymhellach yn gostwng yn sylweddol gydag oedran. Roedd 15% o raddedigion 20 oed ac iau yn astudio ymhellach, o gymharu â 3% o raddedigion 30 oed a hŷn.

Roedd cyfran y graddedigion 30 oed a hŷn a oedd yn ddi-waith yn 5%. Roedd hyn yn is na chyfran y di-waith ar gyfer y grwpiau iau, a oedd yn amrywio rhwng 7 ac 8%.

**Roedd graddedigion ag anabledd hysbys yn llai tebygol o fod mewn cyflogaeth ond ychydig yn fwy tebygol o fod yn astudio ymhellach neu'n cyflawni gweithgareddau 'Eraill', o gymharu â'r rhai heb anabledd hysbys.**

Siart 4: Gweithgarwch ymatebwyr a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru yn ôl statws anabledd, 2023/24.




Data yn Ffigur 5 ar wefan HESA

Aeth cyfran lai o raddedigion ag anabledd hysbys ymlaen i gyflogaeth (61%) na'r rhai heb anabledd hysbys (69%).


Roedd graddedigion ag anableddau hysbys yn fwy tebygol o fod yn cyflawni gweithgareddau eraill heblaw gwaith. Roedd 12% o raddedigion ag anabledd hysbys yn gwneud cyfuniad o waith ac astudiaeth bellach (1 pwynt canran yn uwch na'r rhai heb anabledd).

Roedd 8% o raddedigion ag anabledd hysbys yn astudio ymhellach yn unig, roedd 10% yn gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, gofalu neu wedi ymddeol, ac roedd 2% yn gwneud gwaith gwirfoddol. O gymharu â hyn, roedd 6% o raddedigion heb unrhyw anabledd hysbys yn astudio ymhellach yn unig, 7% yn gwneud gweithgareddau eraill, ac 1% yn gwneud gwaith gwirfoddol.

Roedd cyfran y graddedigion ag anabledd hysbys a oedd yn ddi-waith (7%) un pwynt canran yn uwch nag ar gyfer y rhai heb anabledd (6%).

**Roedd cyfran y graddedigion mewn cyflogaeth 15 mis ar ôl graddio yn amrywio ar draws grwpiau ethnig.**

Siart 5: Gweithgarwch ymatebwyr a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru yn ôl ethnigrwydd, 2023/24.




Data yn Ffigur 5 ar wefan HESA

Graddedigion o gefndir ethnig Gwyn oedd â'r gyfran fwyaf mewn cyflogaeth (68%), ac yna graddedigion o gefndiroedd ethnig Cymysg neu Luosog (64%). Roedd 58% o raddedigion Asiaidd mewn cyflogaeth, tra bod 56% o raddedigion Duon mewn cyflogaeth. Roedd cyfran y graddedigion o gefndiroedd ethnig eraill a oedd mewn cyflogaeth yn is na'r holl grwpiau eraill, sef 53%.

Roedd 15% o raddedigion o gefndir ethnig Du yn gwneud cyfuniad o waith ac astudiaeth bellach, a oedd ychydig yn fwy na'r cyfrannau ar gyfer grwpiau eraill.

Roedd y rhai o gefndiroedd Arall ac Asiaidd ychydig yn fwy tebygol o fod yn astudio ymhellach yn unig (9% yn y naill ac 8% yn y llall).

Roedd 3% o raddedigion o gefndiroedd ethnig Cymysg neu Luosog yn gwneud gwaith gwirfoddol neu ddi-dâl, a oedd yn uwch nag ar gyfer grwpiau ethnig eraill.

Roedd graddedigion o gefndiroedd Du (11%), Asiaidd (11%) ac Arall (11%) yn fwy tebygol o fod yn gwneud gweithgareddau eraill fel teithio, gofalu neu wedi ymddeol.

Graddedigion Gwyn a Chymysg oedd â'r cyfrannau lleiaf o raddedigion di-waith (5% yn y naill a 7% yn y llall), tra bod gan raddedigion o gefndiroedd Arall y gyfran fwyaf o ddiweithdra (12%).

Mae Siart 5 yn eithrio graddedigion â chefndir ethnig anhysbys. O'r rhai â deilliannau hysbys, roedd gan 2% gefndir ethnig anhysbys (290 o raddedigion).

## Pa weithgareddau oedd ymatebwyr a oedd yn hanu o Gymru yn ei wneud 15 mis ar ôl graddio?

**Roedd cyfran y graddedigion sy'n hanu o Gymru a oedd naill ai mewn cyflogaeth amser llawn neu ran-amser yn debyg i'r gyfran honno ar gyfer graddedigion sy'n hanu o Loegr.**

Tabl 2: Gweithgareddau ymatebwyr o'r DU a astudiodd mewn unrhyw ddarparydd AU yn y DU yn ôl cyfeiriad parhaol wrth ddechrau ar eu cwrs, 2023/24.

| | Gwlad cyfeiriad parhaol yr ymatebydd wrth ddechrau ar y cwrs | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgarwch** | **Cymru** | **Lloegr** | **Gogledd Iwerddon** | **Yr Alban** |
| Cyflogaeth amser llawn | 56% | 56% | 61% | 58% |
| Cyflogaeth ran-amser | 13% | 13% | 11% | 13% |
| Patrwm cyflogaeth anhysbys | 0% | 0% | 1% | 0% |
| Gwaith gwirfoddol neu ddi-dâl | 1% | 1% | 1% | 1% |
| Cyflogaeth ac astudiaeth bellach | 12% | 11% | 12% | 11% |
| Addysg bellach amser llawn | 5% | 5% | 5% | 5% |
| Addysg bellach ran-amser | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Patrwm astudiaeth bellach anhysbys | 0% | 0% | 0% | 0% |
| Arall gan gynnwys teithio, gofalu am rywun neu wedi ymddeol | 7% | 7% | 6% | 6% |
| Di-waith | 5% | 6% | 3% | 4% |

Data yn Ffigur 4 ar wefan HESA

Yn 2023/24, roedd 56% o raddedigion a hanai o Gymru mewn cyflogaeth amser llawn, tra bod 13% mewn cyflogaeth ran-amser. Roedd y cyfrannau hyn yn debyg ar gyfer graddedigion a oedd yn hanu o Loegr wrth ddechrau eu cyrsiau. I gymharu, roedd 61% o'r graddedigion yng Ngogledd Iwerddon a hanai o'r wlad honno mewn gwaith amser llawn, ac 11% ohonynt mewn gwaith rhan-amser, tra'r oedd 58% o'r graddedigion yn yr Alban a hanai o'r wlad honno mewn gwaith amser llawn, ac 13% ohonynt mewn gwaith rhan-amser.

Roedd 12% o raddedigion o Gymru yn cyflawni cyfuniad o gyflogaeth ac astudiaeth bellach, 5% mewn astudiaethau pellach amser llawn, ac roedd 7% yn ymwneud â gweithgareddau amgen fel teithio a gofal neu wedi ymddeol.

Roedd cyfran y graddedigion o Gymru oedd yn ddi-waith (5%) tua'r canol o gymharu â gweddill y DU, gyda graddedigion sy'n hanu o Loegr â'r gyfran uchaf fwyaf o raddedigion di-waith (6%) a Gogledd Iwerddon â'r gyfran leiaf (3%).


## Gweithgarwch graddedigion yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC)

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r dull swyddogol o fesur amddifadedd cymharol mewn ardaloedd daearyddol bychain yng Nghymru.  Yn Siart 6, mae Cwintel 1 (C1) yn cynrychioli'r 20% o ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru, tra bod Cwintel 5 (C5) yn cynrychioli'r 20% o ardaloedd lleiaf amddifadus.

Roedd gan nifer fach iawn o ymatebwyr o arolwg 2023/24 (llai na 15) god post anhysbys oherwydd data o ansawdd gwael neu ddata coll, felly roedd eu cwintel MALIC yn anhysbys. Mae'r ymatebwyr hyn wedi'u hepgor o'r adran hon, ac mae'n annhebygol y bydd gwneud hynny'n amharu ar gadernid y dadansoddiad, gan fod y nifer ohonynt yn fach.

**Roedd graddedigion israddedig amser llawn o ardaloedd mwyaf amddifadus Cymru yn llai tebygol o gael eu cyflogi 15 mis ar ôl graddio, o gymharu â'r rhai o ardaloedd llai amddifadus.**

Siart 6: Gweithgarwch ymatebwyr israddedig amser llawn o Gymru a astudiodd yn unrhyw ran o'r DU yn ôl Cwintel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2019, 2023/24




Data yn Ffigur 6 ar wefan HESA

Ymhlith graddedigion o gyrsiau israddedig amser llawn, roedd anghydraddoldeb amlwg mewn deilliannau cyflogaeth rhwng y rhai o'r ardaloedd mwyaf amddifadus yng Nghymru (Cwintel 1) a'r rhai o ardaloedd llai difreintiedig, gyda 59% o raddedigion Cwintel 1 mewn cyflogaeth o gymharu â 66% i 67% ar draws Cwintelau 2 i 5.

Roedd gan raddedigion Cymru o'r ardaloedd Cwintel mwyaf amddifadus gyfran fwy a oedd yn cyflawni cyfuniad o waith ac astudiaeth bellach (13%), o gymharu ag 11% i 12% o'r pedwar cwintel llai amddifadus. Yng Nghwintel 1 hefyd, roedd cyfran ychydig yn fwy

wedi symud ymlaen i astudio ymhellach (9%), o gymharu â'r 7% i'r 8% yn y cwintelau llai amddifadus.

Roedd cyfran ychydig yn fwy yn cyflawni gweithgareddau 'Arall' (10%) yng nghwintel 1 o gymharu â graddedigion o gwintelau llai amddifadus, lle'r oedd y cyfrannau rhwng 6% ac 8%.

Roedd gan bob cwintel gyfrannau rhwng 6 ac 8% o raddedigion di-waith, gyda chyfrannau'r graddedigion o'r ardaloedd mwyaf amddifadus yng nghwintelau 1 a 2 ar y pen uchaf.

Roedd cyfran y graddedigion a oedd yn gwneud gwaith gwirfoddol neu ddi-dal yn 2% ar draws yr holl gwintelau ar wahân i Gwintelau 2 a 5, a oedd yn 1%.

## Beth oedd lleoliad ymatebwyr a oedd yn gyflogedig 15 mis ar ôl graddio?


Mae'r data yn yr adran hon yn cynnwys ymatebwyr a nododd mai gwaith oedd eu gweithgarwch pwysicaf, a lle'r oedd y wlad yr oeddent yn gweithio ynddi yn hysbys.

Mae'r canrannau yn yr adran hon yn wahanol i'r hyn a gyhoeddir ar wefan HESA yn Ffigur 16 gan ein bod wedi cynnwys ymatebwyr sy'n gweithio y tu allan i'r DU a rhai sy'n gweithio mewn rhanbarth anhysbys yn Lloegr. Mae Siart 8 hefyd yn cynnwys unrhyw ymatebwyr sy'n dod o ranbarth anhysbys yn Lloegr.

### Graddedigion a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru

**Yn gyson, mae mwyafrif y graddedigion sy'n hanu o Gymru a astudiodd gyda darparwyr AU yng Nghymru wedi dewis aros yng Nghymru i weithio.**

Siart 7: Lleoliadau gwaith ymatebwyr o Gymru a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru, 2019/20 i 2023/24




Data yn Nhabl 1.1 ar y daenlen atodol.


Yn 2023/24, dywedodd 88% o'r ymatebwyr yr oedd eu cyfeiriad parhaol yng Nghymru ac a oedd wedi astudio gyda darparydd yng Nghymru eu bod wedi aros yng Nghymru i weithio.

Dywedodd 11% eu bod yn gweithio mewn mannau eraill yn y DU, tra bod cyfran fach (1%) wedi symud i weithio y tu allan i'r DU.

Mae'r cyfrannau hyn wedi aros yn gyson iawn ar draws y pum mlynedd diwethaf o ddata o'r arolwg Deilliannau Graddedigion, gan amrywio ond 1 pwynt canran rhwng categorïau mewn rhai blynyddoedd.

**Roedd y rhan fwyaf o raddedigion a astudiodd yng Nghymru ond a oedd yn hanu o rannau eraill o'r DU wedi gadael Cymru i weithio.**

Siart 8: Lleoliadau gwaith ymatebwyr o weddill y DU a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru, 2019/20 i 2023/24




Data yn Nhabl 1.2 ar y daenlen atodol

Yn 2023/24, aeth 80% o raddedigion a astudiodd yng Nghymru ond a oedd yn hanu o rannau eraill o'r DU ymlaen i weithio y tu allan i Gymru. Mae hyn ychydig yn uwch (2 bwynt canran) na chyfran y flwyddyn flaenorol, ond ar lefel debyg i ddata'r pedair blynedd diwethaf.


Roedd cyfran y graddedigion hyn a arhosodd yng Nghymru i weithio ar ôl astudio yno yn 18% yn 2023/24. Aeth 2% o raddedigion ymlaen i weithio y tu allan i'r DU.

## Graddedigion o Gymru a astudiodd yn rhannau eraill o'r DU

Nid yw Siart 9 isod yn cynnwys y nifer fach o ymatebwyr o Gymru a astudiodd gymwysterau addysg uwch gyda darparydd addysg bellach yn Lloegr neu Ogledd Iwerddon gan nad oes gan Medr y data ar gyfer ymatebwyr o'r darparwyr hyn.

**Mae cyfran y graddedigion sy'n hanu o Gymru a astudiodd yn rhannau eraill o'r DU ac a ddaeth yn ôl i Gymru i weithio wedi dychwelyd i lefelau 2019/20.**

Siart 9: Lleoliadau gwaith ymatebwyr o Gymru a astudiodd gyda darparwyr AU yn rhannau eraill o'r DU, 2019/20 i 2023/24




Data yn Nhabl 1.3 ar y daenlen atodol

Yn 2023/24, dychwelodd 45% o raddedigion Cymru a astudiodd yn rhannau eraill o'r DU i Gymru i weithio. Mae hyn yn debyg iawn i'r gyfran ar gyfer 2019/20 (44%), a ostyngodd wedi hynny i 41% yn 2021/22, a chodi'n ôl yn raddol wedi hynny.

Arhosodd mwyafrif bach (53%) o raddedigion yn rhan arall o'r DU i weithio ar ôl gadael Cymru i astudio, sy'n debyg i gyfran 2019/20 o 54%. Rhwng y blynyddoedd hyn, cynyddodd cyfran y graddedigion a ddewisodd aros y tu allan i Gymru ond yn y DU i weithio, gan gyrraedd uchafbwynt yn 2021/22 ar 57%, cyn setlo i lawr eto.

Mae cyfran y graddedigion hyn a symudodd i weithio y tu allan i'r DU wedi aros ar 2% ers 2020/21.

## Sut oedd yr ymatebwyr yn teimlo ynghylch eu gweithgareddau 15 mis ar ôl graddio?


Gofynnwyd tri chwestiwn i'r graddedigion er mwyn crynhoi eu teimladau ynghylch eu gweithgarwch presennol, p'un a oedd y gweithgarwch hwnnw'n gyflogaeth, yn astudiaethau pellach neu'n rhywbeth arall. Mae geiriad y cwestiynau hyn yn amrywio rhywfaint yn dibynnu ar y gweithgarwch yr oedd yr ymatebwyr yn ei wneud yn ystod wythnos y cyfrifiad. Mae atebion i'r cwestiynau hyn wedi cael eu cyfuno er mwyn adrodd arnynt yn y cyhoeddiad hwn.

Mae'r adran hon yn crynhoi'r ymatebion gan rai a astudiodd gyda darparwyr yng Nghymru o bum mlynedd diweddaraf yr arolwg Deilliannau Graddedigion.

## A yw eich gweithgarwch presennol yn ystyrlon? – ymatebwyr o ddarparwyr Cymru

**Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae mwyafrif yr ymatebwyr wedi cytuno'n gyson fod eu gweithgarwch presennol yn ystyrlon.**

Siart 10: Ymatebion wrth holi a oedd ymatebwr a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru yn teimlo bod ei weithgarwch presennol yn ystyrlon, 2019/20 i 2023/24




[Data yn Ffigur 17 ar wefan HESA]

Yn 2023/24, roedd 41% o raddedigion yn cytuno'n gryf a 43% yn cytuno bod eu prif weithgarwch ar adeg yr arolwg yn ystyrlon.


Bu cynnydd o un pwynt canran (o 3% i 4%) yng nghyfran yr ymatebwyr a anghytunai'n gryf fod eu gweithgarwch yn ystyrlon, o gymharu â data'r pedair blynedd blaenorol.

Fel arall, mae'r ymatebion i'r arolwg wedi parhau i fod yn debyg iawn dros y pum mlynedd diwethaf.

## A ydych yn defnyddio'r hyn rydych chi wedi'i ddysgu yn eich gweithgarwch presennol? – ymatebwyr o ddarparwyr Cymru

**Bu gostyngiad cyson yng nghyfran y graddedigion a gytunai eu bod yn gwneud defnydd o'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu ar eu cwrs yn eu gweithgarwch presennol.**

Siart 11: Ymatebion wrth ofyn a oedd ymatebydd a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru yn teimlo ei fod yn defnyddio'r hyn yr oedd wedi'i ddysgu yn ystod ei astudiaethau yn ei weithgarwch presennol, 2019/20 i 2023/24.




[Data yn Ffigur 17 ar wefan HESA]

Yn 2023/24, o'r ymatebwyr a oedd wedi astudio gyda darparydd AU yng Nghymru, roedd 38% yn cytuno a 30% yn cytuno'n gryf eu bod yn defnyddio'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu yn ystod eu hastudiaethau yn eu gweithgarwch presennol.

Mae cyfran y graddedigion sy'n cytuno â'r cwestiwn wedi bod yn gostwng yn gyson bob blwyddyn ers 2019/20, pan oedd yn 41%.


Mae cyfran y graddedigion sy'n cytuno'n gryf wedi aros ar gyfran debyg dros y pum mlynedd diwethaf (rhwng 29% a 30%).

Roedd cyfran yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno'n gryf eu bod yn defnyddio'r hyn yr oeddent wedi'i ddysgu o'u hastudiaethau yn eu gweithgarwch presennol yn 9% yn 2023/24. Roedd hyn yn gynnydd o 2 bwynt canran o'r gyfran o 7% yn 2019/20.

## A yw eich gweithgarwch presennol yn cyd-fynd â'ch cynlluniau ar gyfer y dyfodol? – ymatebwyr o ddarparwyr Cymru

**Roedd cyfran fwy o raddedigion yn anghytuno bod eu gweithgarwch presennol yn cyd-fynd â'u cynlluniau i'r dyfodol, o gymharu â blynyddoedd blaenorol.**

Siart 12: Ymatebion wrth ofyn a oedd ymatebydd a astudiodd gyda darparydd AU yng Nghymru o'r farn fod ei weithgarwch presennol yn cyd-fynd â'i gynlluniau i'r dyfodol, 2019/20 i 2023/24




Data yn Ffigur 17 ar wefan HESA

Yn 2023/24, roedd y rhan fwyaf o raddedigion a astudiai gyda darparwyr AU Cymru naill ai'n cytuno (37%) neu'n cytuno'n gryf (37%) fod eu gweithgarwch presennol yn cyd-fynd â'u cynlluniau i'r dyfodol. Mae hyn yn cyfateb yn fras i gyfrannau'r blynyddoedd cynt, er bod y cyfran a atebodd 'Cytuno' wedi gostwng rhyw fymryn ers 2019/20, pan oedd ar 39%.

Roedd cyfrannau mwy o raddedigion a atebodd yr arolwg yn 2023/24 nag yn y blynyddoedd blaenorol naill ai'n anghytuno (10%) neu'n anghytuno'n gryf (8%) bod eu gweithgarwch presennol yn cyd-fynd â'u cynlluniau i'r dyfodol. Cyn 2023/24, roedd y gyfran a oedd yn anghytuno'n gryf yn gyson ar 6% ac i'r rhai a oedd yn anghytuno, roedd yn amrywio rhwng 8 a 9%.

## Pa gyflogau oedd graddedigion a gafodd gymwysterau gradd gyntaf ac a aeth i gyflogaeth amser llawn yn eu hennill 15 mis ar ôl graddio?


Mae'r data yn yr adran hon yn cynnwys ymatebwyr a nododd mai gwaith oedd eu gweithgarwch pwysicaf ac a oedd yn gweithio'n llawnamser ar ôl dechrau cymhwyster gradd gyntaf. Daw'r cyflogau canolrifol pwysedig o Ffigur 14 ar wefan HESA sydd hefyd yn dadansoddi'r cyflogau ymhellach ar sail pwnc a dynodwr sgìl.

Y cyflog canolrifol pwysedig yw'r cyflog canolbwynt ar ôl ystyried maint gwahanol grwpiau, gan roi mwy o ddylanwad i grwpiau mwy fel bod y canlyniad yn rhoi adlewyrchiad gwell o'r boblogaeth gyffredinol.

Yn hanesyddol ac yn y datganiad hwn, data mewn termau enwol yw'r data enillion a ddarperir gan HESA. Mae hyn yn golygu nad yw enillion graddedigion wedi'u haddasu ar gyfer chwyddiant i adlewyrchu pŵer prynu'r enillion hynny. Fe'ch cynghorir felly i fod yn ofalus wrth gymharu data cyflogau ar draws y blynyddoedd.

**Ar y cyfan, mae'r bwlch mewn cyflogau canolrifol rhwng graddedigion o ddarparwyr Cymru a'r DU wedi culhau.**

Siart 13: Cyflogau canolrifol pwysedig ar gyfer graddedigion o ddarparwyr AU Cymru o gymharu â holl ddarparwyr AU y DU, 2019/20 i 2023/24




Data yn Ffigur 14 ar wefan HESA


Yn 2023/24, y cyflog canolrifol pwysedig ar gyfer graddedigion o ddarparwyr AU Cymru oedd £29,970. I raddedigion o bob darparydd yn y DU, y cyflog canolrifol pwysedig oedd £30,000.

Mae'r cyflog canolrifol pwysedig ar gyfer graddedigion o ddarparwyr AU Cymru wedi bod fymryn yn is na chyfartaledd y DU dros y pum mlynedd diwethaf o ddata, ond mae'r cyflogau wedi cydgyfeirio'n raddol.

## Cyfraddau ymateb i'r Arolwg Deilliannau Graddedigion dros amser

**Mae'r gyfradd ymateb i'r arolwg Deilliannau Graddedigion wedi bod yn gostwng yn gyson dros amser, yn fwy felly yn achos graddedigion a astudiodd gyda darparwyr AU yng Nghymru, na rhai sy'n hanu o Gymru.**

Siart 14: Cyfraddau ymateb i'r arolwg Deilliannau Graddedigion ar gyfer graddedigion o ddarparwyr AU Cymru o gymharu â graddedigion sy'n hanu o Gymru o unrhyw ddarparydd AU yn y DU, 2019/20 i 2023/24




Data yn Ffigur 3 ar wefan HESA

Cwblhaodd 17,440 o raddedigion o ddarparwyr addysg uwch (AU) yng Nghymru ymateb i arolwg Deilliannau Graddedigion 2023/24, neu ei gwblhau'n rhannol. Roedd hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 38% o'r boblogaeth darged o 46,400 o raddedigion o ddarparwyr addysg uwch yng Nghymru. Mewn cyferbyniad â hyn, 54% oedd y gyfradd ymateb ar gyfer graddedigion 2019/20.

Ar draws pob darparydd yn y DU, cyflwynodd 13,025 o raddedigion (yr oedd eu cyfeiriad parhaol yng Nghymru) ymateb wedi'i gwblhau neu wedi'i gwblhau'n rhannol i arolwg 2023/24. Roedd hyn yn cynrychioli cyfradd ymateb o 48% o'r boblogaeth darged o 27,200. Mewn cyferbyniad â hyn, 56% oedd y gyfradd ymateb ar gyfer graddedigion 2019/20.

Dros y pum mlynedd diwethaf, mae'r gyfradd ymateb ar gyfer y ddau grŵp hyn wedi aros yn uwch na'r gyfradd ymateb gyffredinol i'r arolwg Deilliannau Graddedigion. 35% oedd y gyfradd ymateb gyffredinol i arolwg Deilliannau Graddedigion 2023/24.

Cyhoeddodd HESA adroddiad ymchwil ar ddiwedd 2025 yn archwilio effaith bosibl cyfraddau ymateb is ar ystadegau Deilliannau Graddedigion. Prif gasgliad yr adroddiad oedd mai ychydig o effaith arwyddocaol yr oedd hyn yn ei gael ar ganlyniadau deilliannau'r DU gyfan wrth efelychu cyfradd ymateb ar 45%, 40% a 35%.

Mae hyn yn creu hyder ynghylch cadernid data deilliannau graddedigion i Gymru Fodd bynnag, dylid bod yn ofalus wrth gymhwyso'r casgliadau hyn i grwpiau llai.

## Diffiniadau a Rhestr Termau

Mae HESA yn cyhoeddi diffiniadau ar gyfer yr Arolwg Deilliannau Graddedigion ar ei gwefan.

### Anabledd

Dyma gofnod o'r math o anabledd neu anableddau sydd gan fyfyriwr, ar sail hunanasesiad y myfyriwr ei hun. O 2022/23 ymlaen, gallai pob myfyriwr nodi anableddau lluosog. Does dim rhaid i fyfyrwyr roi gwybod am anabledd os oes ganddynt un.

### Blwyddyn Academaidd

Y flwyddyn academaidd yw'r flwyddyn academaidd pan raddiodd yr ymatebwr, a darparwyd ei ymatebion tua 15 mis yn ddiweddarach.

### Cyflog canolrifol pwysedig

Cyflog canolrifol pwysedig yw ffordd o gyfrifo cyflog canol (50fed canradd) pan fo gwahanol grwpiau neu gategorïau wedi'u cynnwys. Mae'r dull hwn yn ystyried grwpiau o wahanol feintiau, gan roi mwy o bwyslais ar grwpiau ac ynddynt fwy o bobl. Mae hyn yn golygu nad yw cyflogau graddedigion o grwpiau llai wedi'u gorgynrychioli ac nad yw eu heffaith ar y canolrif cyffredinol yn anghymesur.

### Cyfradd ymateb

Y gyfradd ymateb yw nifer yr ymatebion wedi'i gyfleu ar ffurf canran o'r boblogaeth sy'n gymwys i gwblhau'r arolwg Deilliannau Graddedigion.

### Diweithdra

Lle bo graddedigion wedi'u cynnwys yn y categori di-waith, mae hyn yn cyfeirio at gyfran y graddedigion sydd wedi hunanadrodd eu bod yn ddi-waith ac yn chwilio am waith yn ystod wythnos y cyfrifiad.

### Ethnigrwydd

Cofnodir ethnigrwydd ar sail hunanasesiad y myfyriwr ei hun. Mae canlyniadau'r arolwg Deilliannau Graddedigion wedi'u cysylltu â chofnod Myfyrwyr HESA. Dim ond ar gyfer myfyrwyr sydd â chyfeiriad parhaol yn y DU y cesglir data ethnigrwydd yng nghofnod Myfyrwyr HESA.

### Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru  (MALIC)

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw'r dull swyddogol o fesur amddifaded1d cymharol mewn ardaloedd daearyddol bychain yng Nghymru. Fe'i cynlluniwyd i nodi'r ardaloedd bach hynny lle mae'r crynoadau uchaf o sawl math gwahanol o amddifadedd. Mae'r ardaloedd bach hyn wedi cael eu rhestru, yn ôl MALIC 2019, a'u grwpio'n gwintelau.

Defnyddir cod post y graddedigion wrth ddechrau eu cwrs i nodi cwintel amddifadedd yr ardal y maent yn byw ynddi. Nid yw'r dull hwn o fesur amddifadedd yn seiliedig ar amddifadedd y dysgwr yn benodol. Mae llawer o ddysgwyr nad ydynt eu hunain yn profi amddifadedd yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd, ac fel arall.

Rydym wedi defnyddio fersiwn 2019 o Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) fel dull o fesur yr amddifadedd yn yr ardal y mae ymatebwr yn hanu ohoni. Mae rhagor o wybodaeth am MALIC ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

### O ble mae'r ymatebydd yn dod

Mae'r ardal y mae'r ymatebydd yn dod ohoni yn seiliedig ar ei gyfeiriad parhaol wrth ddechrau ei gwrs.

### Oedran

Oedran yr ymatebydd yw ei oedran ar 31 Gorffennaf yn y cyfnod adrodd (diwedd y flwyddyn academaidd pan enillodd y graddedig ei gymhwyster perthnasol).

### Rhyw

Dyma gofnod o ryw y myfyriwr yn hytrach na'r rhywedd y mae'n uniaethu ag ef. Gall myfyrwyr wrthod dychwelyd yr wybodaeth hon.

Sylwer nad yw canran y graddedigion sydd wedi hunanadrodd eu bod yn ddi-waith ac yn chwilio am waith yn yr arolwg Deilliannau Graddedigion yn ystadegyn y gellir ei gymharu â chyfraddau diweithdra sydd ar gael mewn arolygon eraill, fel Arolwg y Gweithlu (LFS).

## Ffynhonnell y data

### Arolwg Deilliannau Graddedigion yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA)

Arolwg yw Deilliannau Graddedigion HESA, a gynhaliwyd yn gyntaf ar y boblogaeth o r1addedigion ym mlwyddyn academaidd 2017/18.Mae'r arolwg yn casglu gwybodaeth am weithgareddau a safbwyntiau graddedigion tua 15 mis ar ôl iddynt gwblhau eu hastudiaethau addysg uwch (AU).

Mae'r arolwg yn casglu gwybodaeth gan raddedigion darparwyr AU ledled y DU. Fodd bynnag, mae ein hadroddiad yn canolbwyntio ar y graddedigion o ddarparwyr AU yng Nghymru, ac ar raddedigion yr oedd eu cyfeiriad ar ddechrau ar eu cwrs yng Nghymru, waeth ymhle yn y DU y buont yn astudio.

## Talgrynnu

Mae'r holl ffigurau wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf. Defnyddir ffigurau heb eu talgrynnu i gyfrifo'r cyfansymiau, ac yna talgrynnu i'r 5 agosaf. Mae'n bosib felly na fyddant yn hafal i swm y cydrannau.

Cyfrifir canrannau drwy ddefnyddio ffigurau heb eu talgrynnu ac wedyn talgrynnu i'r ganran gyfan agosaf. Gallai hyn olygu na fydd y canrannau yn y datganiad hwn yn cyd-

fynd â'r hyn y byddech yn ei gyfrifo o'r ffigurau sydd wedi'u talgrynnu. Os cyfrifir canran lle bo'r enwadur yn llai na 22.5, caiff y ganran ei hatal.

## Gwybodaeth Allweddol am Ansawdd

Mae HESA wedi cynhyrchu Adroddiad Ansawdd ar gyfer yr arolwg Deilliannau Graddedigion sydd wedi'i gyhoeddi ar ei gwefan. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am ansawdd yr arolwg yn ôl y pum dimensiwn ansawdd a bennir yn y System Ystadegol Ewropeaidd. Y rhain yw perthnasedd, cywirdeb, amseroldeb a phrydlondeb, hygyrchedd ac eglurder, a chydlyniant a chymaroldeb.

### Perthnasedd

Mae'r ystadegau'n darparu gwybodaeth lefel uchel am ganlyniadau'r arolwg Deilliannau Graddedigion ar gyfer graddedigion o ddarparwyr addysg uwch Cymru, ac ar gyfer graddedigion o Gymru a astudiodd ledled y DU.

### Cywirdeb

Arolwg ar raddfa'r boblogaeth yw'r arolwg Deilliannau Graddedigion, yn yr ystyr y mae'n ceisio casglu ymatebion o'r holl ffrâm samplu gyfan. Fodd bynnag, yn debyg i'r rhan fwyaf o arolygon, nid oes cyfradd ymateb o 100%. Roedd cyfradd ymateb arolwg Deilliannau Graddedigion 2023/24 yn is na'r blynyddoedd cynt. Er mwyn helpu defnyddwyr y data i ddeall y mater hwn, mae HESA wedi cynnwys gwybodaeth gyd-destunol ychwanegol yn y Canllaw i Ddefnyddwyr ar ei gwefan.

Mae HESA wedi canfod bod y data yn gynrychioliadol o'r boblogaeth i'r rhan fwyaf o ddibenion ystadegol, ac yn asesu a oes angen pwysoli'r data mewn unrhyw ffordd bob pum mlynedd, onid oes tystiolaeth i awgrymu bod angen cynnal asesiad yn gynharach na hynny.

Mae mwyafrif y data yn yr adroddiad hwn hefyd wedi'u cyhoeddi yn Data Deilliannau Graddedigion Addysg Uwch HESA sydd wedi'i ddynodi'n Ystadegau Swyddogol Achrededig. Yr eithriad i hyn yw'r data rydyn ni wedi'u cyflwyno am y wlad y mae ymatebwyr yn gweithio ynddi lle rydyn ni wedi defnyddio'r un newidynnau ag a ddefnyddir gan HESA, ond gan gwmpasu poblogaeth ychydig yn wahanol drwy gynnwys y rhai o'r DU ac sy'n gweithio y tu allan i'r DU.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Wrth ddylunio'r arolwg Deilliannau Graddedigion, penderfynodd HESA a'i chwsmeriaid statudol gael bwlch o 15 mis rhwng graddio a chasglu data er mwyn taro cydbwysedd rhwng argaeledd data gyrfaoedd defnyddiol, gallu sicrhau cyfradd ymateb uchel a gallu cyhoeddi data sy'n dal yn berthnasol.

Ar gyfer yr adroddiad hwn a gyhoeddwyd gan Medr, rydym wedi darparu'r data cyn gynted ag sy'n bosibl yn dilyn cyhoeddi canlyniadau'r arolwg Deilliannau Graddedigion gan HESA, ac yn unol â gweithdrefnau cyn rhyddhau Medr.

### Hygyrchedd ac eglurder

Cyhoeddwyd y datganiad ystadegol hwn ymlaen llaw ar wefan Llywodraeth Cymru ac yn yr Adran Ystadegau ar wefan Medr.

Cyhoeddir yr adroddiad ar ffurf PDF gyda llyfr gwaith cysylltiedig sydd ar gael mewn fformat data agored (ODS). Mae'r datganiad a'r llyfr gwaith, y naill a'r llall, yn cadw at ganllawiau hygyrchedd.

### Cymaroldeb a chydlyniad

Mae gwefan data agored HESA yn cynnwys canlyniadau Deilliannau Graddedigion ar gyfer graddedigion o ddarparwyr AU ym mhob cwr o'r DU. Mae hyn yn cynnwys canlyniadau o'r arolwg Deilliannau Graddedigion cyntaf a oedd yn edrych ar raddedigion o flwyddyn academaidd 2017/18 er mwyn caniatáu cymariaethau dros amser a rhwng darparwyr ledled y DU.

Daeth yr arolwg Deilliannau Graddedigion i ddisodli'r arolwg Cyrchfannau Ymadawyr Addysg Uwch gynt, ac yn wahanol mewn nifer o ffyrdd sy'n golygu nad oes modd cymharu canlyniadau'r naill arolwg a'r llall yn uniongyrchol.

## Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

### Datganiad Cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Caiff ein harferion ystadegol eu rheoleiddio gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau (OSR). Mae'r OSR yn gosod y safonau ar gyfer dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer Ystadegau y dylai holl gynhyrchwyr ystadegau swyddogol gadw atynt.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau, i gynyddu eu dibynadwyedd, eu hansawdd a'u gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn Natganiad Cydymffurfiaeth Medr ynghyd â'r Cod Ymarfer Ystadegau.

Mae'r ystadegau swyddogol hyn yn dangos y safonau a ddisgwylir o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

**Dibynadwyedd**

Mae'r ystadegau hyn wedi'u cyhoeddi yn unol â Datganiad Cydymffurfiaeth Medr a'r polisi ar weld ystadegau swyddogol cyn eu rhyddhau.

**Ansawdd**

Y ffynhonnell ddata ar gyfer y wybodaeth hon yw arolwg Deilliannau Graddedigion HESA. Mae HESA yn cyhoeddi'r canlyniadau fel Ystadegau Swyddogol Achrededig ar ei gwefan. Mae'r rhan fwyaf o'r ystadegau yn yr adroddiad yn cyfateb i'r hyn a gyhoeddir gan HESA. Yr eithriad i hyn yw'r data sy'n edrych ar y wlad y mae'r ymatebwyr yn gweithio ynddi lle rydym wedi defnyddio poblogaethau ychydig yn wahanol.

Mae HESA yn cyhoeddi gwybodaeth am fethodoleg yr arolwg ac adroddiad ansawdd ar ei gwefan. Wrth gynhyrchu'r adroddiad hwn caiff ei wirio gan ddadansoddwyr ystadegol yn Medr.

**Gwerth**

Mae'r ystadegau hyn yn rhoi cipolwg o ddeilliannau graddedigion o ddarparwyr addysg uwch Cymru, a graddedigion o Gymru fu'n astudio ledled y DU. Mae cynhyrchu'r ystadegau hyn yn helpu i ddarparu tystiolaeth i unrhyw un sydd â diddordeb yn yr hyn y mae myfyrwyr yn ei wneud ar ôl eu hastudiaethau ac a ydynt yn teimlo bod eu hastudiaethau wedi bod o fudd.

## Ystadegau cysylltiedig

Cyhoeddir canlyniadau Deilliannau Graddedigion gan HESA yn yr adran Data Deilliannau Graddedigion AU ar ei gwefan. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiadau ychwanegol o beth o'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn sy'n edrych ar nodweddion personol graddedigion a nodweddion y cyrsiau y buont yn eu hastudio.

Cyhoeddwyd adroddiadau cynharach yn y gyfres hon ar llyw.cymru.

## Gwybodaeth gyswllt

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn.

Gellir anfon adborth, cwestiynau, a cheisiadau am ddata pellach drwy e-bost i: YstadegauAU@medr.cymru

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government